

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburn
ar Nos Lun 16eg Mai, 2016 am 7.30 y.h.**

Presennol:**Cyng. Sh Edwards (Cadeirydd)****Cyng. T.A.G. Davies****Cyng. J. George****Cyng. J.J. Powell****Cyng. A. Evans****Cyng. E. Lewis****Cyng. L.L. Owen****Cyng. H.M. Evans****Cyng. C. Lloyd-Morgan****Cyng. R. Jones****Ymddiheuriadau****Cyng. B. Jenkins****Materion Personol**

Dim materion i'w nodi.

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 4ydd Ebrill 2016 fel cofnod cywir.

Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. J. Powell.

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar y 12fed o Ebrill, 2016 fel cofnod cywir. Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. E. Lewis.

Materion yn Codi o'r Cofnodion**Asesiad Risg ac Asedau**

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Ni dderbyniwyd diweddariad pellach. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir am ddiweddariad. Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Coed ar y B4340 Llechwedd Ddyrys

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf gwelwyd fod y perchennog tir wedi cario gwaith ychwanegol ar y safle ond yn ôl a welwyd gan y Cynghorwyr Bro nid oedd y gwaith yn ddigonol a bod y coed yn parhau i weld yn beryglus. Derbyniwyd gohebiaeth gan Rob Duke, Swyddog gyda'r Cyngor Sir yn nodi o safbwynt y Cyngor Sir a diogelwch y ffyrdd fod y perchennog tir wedi cyflawni'r hyn a ofynnwyd iddo o fewn y rhybudd statudol. Cyfeiriodd Rob Duke hefyd ei fod wedi gwneud asesiad o'r coed oedd yn weddill a'i fod yn hapus nad oedd y coed hyn bellach yn berygl i'r cyhoedd. Nodwyd fod rhai o'r coed oedd yn weddill wedi cael yn y gorffennol eu nodi yn beryglus gan Rob Duke mewn cyfarfodydd safle gydag aelodau o'r Cyngor Bro. Ei ymateb i hyn oedd ei fod bellach wedi medru gwneud archwiliad mwy manwl o'r coed ac nid archwiliad o'r ffordd fel y gwnaed yn y cyfarfodydd safle. Trafodwyd y safbwynt uchod mewn Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Bro ar y

12fed o Ebrill a chytunwyd yn y cyfarfod hwnnw i wahodd Kevin Kirkland, Rheolwr Llinell Rob Duke i gyfarfod safle gyda'r Cynghorwyr Cymuned. Cytunwyd hefyd i drefnu arolygydd annibynnol i wneud asesiad o'r coed o ran diogelwch.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb wrth Kevin Kirkland nad oedd am fynychu cyfarfod safle gan fod ganddo pob ffydd yn y penderfyniadau a'r cyngor a roddwyd gan Rob Duke. Nododd hefyd y byddai Rob Duke yn cadw llygad ar y sefyllfa yn rheolaidd ac yn gweithredu fel y gwelir yn addas.

Trafodwyd yr uchod a phenderfynwyd cofnodi anfodlonrwydd y Cyngor Bro i ymateb ag agwedd y Cyngor Sir. Cytunwyd hefyd nad oedd yn addas i dalu am asesiad annibynnol gan fod yn sefyllfa anodd o ran cael mynediad i dir preifat i wneud asesiad.

Cytunwyd i nodi yn hollol glir mewn adroddiad i'r Ddolen a'r Cambrian News i sicrhau'r cyhoedd bod cynghorwyr cymuned wedi bod yn brwydro ar eu rhan i wneud pob peth gorau posibl i ddatrys y problemau ar y safle. Yr adroddiad i egluro'r camau a gymerwyd ers nifer o flynyddoedd gan aelodau o'r Cyngor Bro i geisio datrys y broblem a chael y perchennog tir i dorri'r coed oedd yn beryglus yn Llechwedd Dyrus a'r diffyg cydweithrediad o ran y perchennog tir a Chyngor Sir Ceredigion ac nad oedd mwy y medrai'r Cyngor Bro wneud yn ymarferol er diogelwch y cyhoedd.

Sefyllfa Band Llydan o fewn yr Ardal

Dim mwy o wybodaeth i'w adrodd. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn danfon llythyr cryf at BT i ymholi a oes yna unrhyw ddatblygiadau gan ddanfoni copi at Elin Jones, A.C.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir

Dŵr ger y Gors

Trafwyd fod y dŵr glaw yn cronni ger y safle yma yn gwaethygu. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi ymhellach am y gwaith gael ei wneud fel mater o frys. Gweithred: Y Clerc.

Ffos o Brenan i Lwynbrain

Y broblem yn parhau.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir i nodi bod y broblem yn gwaethygu.

Safle We

Derbyniwyd drafft o'r safle we arfaethedig gan Nigel Callaghan. Cytunwyd i bawb edrych arno a danfon sylwadau i'r Clerc.

Rhiw Dolgwybedig

Cyfeiriwyd fod y ffordd yn gwaethygu a chytunwyd i'r Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir. Deallir bod y ffordd ar raglen waith y Cyngor Sir ar gyfer 2017. Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir unwaith eto at gyflwr y ffordd.

Gweithred: Y Clerc.

Ffordd Uchaf Llanafan

Dim gwaith wedi dechrau ar y safle hyd yn hyn.

Golau Stryd gyferbyn a'r Hen Gapel ger y Gors

Y golau stryd yn parhau i ddim gweithio ac wedi bod fel hynna ers mis Chwefror. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu yn rhagor gyda'r Cyngor Sir i ddatgan siom y Cynghorwyr bod y sefyllfa yn parhau gan nodi bod aelodau'r cyhoedd yn cysylltu gyda'r cynghorwyr Bro i gwyno am y diffyg golau.

Maes y Felin, Llanafan

Dim diweddariad. Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddog Heddlu a Swyddog Tai Ceredigion.

Materion Cyllidol

Nodwyd fod sefyllfa gyllidol y Cyngor Bro fel y nodir: £9,054.20 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,985.01 yn y Cyfrif Cadw ar y diwrnod hwnnw.

Praesept 2016/17

Derbyniwyd swm o £4,500 yn y banc ar y 30ain o Ebrill, 2016 wrth Gyngor Sir Ceredigion.

Yswiriant

Cyfnod yswiriant y Cyngor Bro yn dod i ben. Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant am £353.84 am y flwyddyn 2016/17 a chytunwyd yn unfrydol i ymrwymo i gontract o bum mlynedd gyda Zurich. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn

Derbyniwyd anfoneb gan Mrs. M. Gwynne, Pennaeth, Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn am ddefnydd yr ysgol ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Bro o Ionawr 2015 i Ionawr 2016. Pum cyfarfod ar £15.00 y cyfarfod. Cyfanswm o £75.00. Penderfynwyd talu'r anfoneb, gyda'r taliad yn cael ei gynnig gan Cyng. J. Powell ac eiliwyd gan Cyng. J. George.

Cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth Pysgota

Cyfeiriwyd at lythyr a dderbyniwyd wrth Ifor Christie, Cnwch Coch a Steffan Rattray, Y Gors yn gofyn am nawdd ariannol gan y Cyngor Bro. Dewiswyd y ddau i gynrychioli eu Gwlad mewn cystadleuaeth pysgota yn yr Iwerddon ym mis Awst. Cyfeiriwyd y bydd tipyn o gostau arnynt fel unigolion i fynychu'r gystadleuaeth a chytunwyd i ddanfôn rhodd o £50.00 i Ifor Christie a £50.00 i Steffan Rattray fel cyfraniad bach tuag at y gost. Cynigiwyd y ddau daliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin

Derbyniwyd cais am nawdd ariannol gan Gymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin, Llanafan am gyfraniad tuag at gostau rhedeg y Maes Chwarae.

Penderfynwyd danfon rhodd o £500 at y Pwyllgor. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. J. Powell ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

Adolygiad o Gludiant ôl 16 rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg a'r Ddarpariaeth Seddi Gwag

Derbyniwyd cydnabyddiaeth wrth Gyngor Cymuned Llanilar i'r llythyr a ddanfonwyd atynt yn nodi sylwadau Cyngor Bro Trawsgoed i'r uchod.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Cod Ymddygiad Diwygiedig ar gyfer Aelodau Cynghorau Bro.

Derbyniwyd fersiwn diwygiedig o'r uchod gan Gyngor Sir Ceredigion a ddaw i rym ar yr 20fed o Fai, 2016. Yr aelodau i gyd wedi derbyn copi ar e-bost er eu sylw.

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion.

Gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir ar yr 20fed o Fai, 2016 ble yr etholir Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd y Cyngor Sir.

Yn anffodus nid oedd yn gyfleus i aelodau Cyngor Bro Trawsgoed i fod yn bresennol a'r Clerc i ddanfon ymddiheuriadau.

Gweithred: Y Clerc.

Ceisiadau Cynllunio

Ceisiadau Newydd

Ni chymerodd y Cynghorydd Sir Rowland Jones ran mewn trafodaethau wrth ystyried y cais cynllunio dan sylw.

Rhif Cais A160375 Application to allow occupancy of the dwelling in breach of agricultural occupancy condition. Y Deri, Cnwch Coch, Aberystwyth.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais.

Gweithred: Y Clerc i ymateb fel y nodir uchod.

Swyddfa'r Post Cnwch Coch

Gohebiaeth gan Neil F. Jenkins, Ymgynghorydd Newid Maes, Swyddfa'r Post yn diweddarau'r Cyngor Bro at sefyllfa cau dros dro'r Swyddfa'r Post yng Nghnwch Coch. Yn y llythyr cyfeiriwyd fod y Swyddfa'r Post yn ceisio gwneud trefniadau ar gyfer gwasanaeth teithiol i ymweld â Cnwch Coch a'u bod yn ceisio dod o hyd i Bostfeistr lleoliad sydd â diddordeb yn y cyfle i gynnig gwasanaeth i'r gymuned.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd derbyn y llythyr a hefyd ymateb drwy nodi be byddid yn cael anhawster i gael safle addas ar gyfer darparu'r gwasanaeth teithiol yn Cnwch Coch o ran cyfyngder lleoliad ar gyfer y cerbyd post yr awgrymir byddai mwy o le ar y sgwâr yn Llanfihangel-y-Creuddyn ar gyfer lleoli cerbyd o'r fath. Ond roedd yr aelodau yn awyddus i nodi mai ceisio cael safle yn Cnwch Coch ddylid gwneud yn y lle cyntaf.

UNRHYW FATER ARALL

Melin Wynt, Penuwch Fach

Ymholwyd a oedd unrhyw wybodaeth newydd wedi dod drwyddo am yr uchod ond nid oedd gwybodaeth pellach wedi derbyn.

Wal Fynwent yr Eglwys yn Llanfihangel-y-Creuddyn

Cyfeiriwyd fod yr afon yn bwyta mewn o dan wal Mynwent yr Eglwys yn Llanfihangel-y-Creuddyn. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gydag Awdurdod Afonydd i dynnu sylw at y broblem gan ofyn iddynt weithredu i atal erydiad o'r wal.

Dwr Cymru a Cysylltu gyda System Garthffosiaeth yn Llanafan

Adroddwyd y cafwyd cyfarfod buddiol gyda chynrychiolwyr sefydliadau yn ymwneud a'r gwaith Carthffosiaeth yn Llanafan ar y 12fed o Ebrill, 2016 a bod trefniadau i weld yn mynd yn hwylus o ran cael perchnogion tai i ymuno gyda'r system garthffosiaeth yn sgil y ffaith fod Dwr Cymru wedi cytuno i hepgor y ffi ar gyfer cysylltu gyda'r drain ochr (lateral drain). Cyfeiriwyd bod dyfalbarhad y Cynghorwyr Bro lleol wedi bod yn fuddiol wrth sicrhau costau teg a chytbwys i'r trigolion, gan nodi bod y cynllun o'r fath yn werth miloedd o bunnoedd a pe na fyddai'r perchnogion tai yn ymuno gyda'r cynllun yn wirfoddol byddai'r cynllun yn ofer.

Trafodwyd dau dy yn benodol yn Llanafan sydd wedi eu nodi fel 'non-duty properties' a ddylai yn nhib y Cyngor Bro gael eu dynodi fel 'duty properties' h.y. tai sydd yn ymweld i lygri'r amgylchedd gan nad oes system carthffosiaeth digonol ganddynt ar hyn o bryd. Gobeithir y byddai'r tai hyn yn cael y cyfle i ymuno gyda'r cynllun o dan yr un amodau a'r trigolion eraill ac yn sicrhau na fyddai'r eiddo yn llygri'r amgylchedd bellach. Yn wir deallir fod perchennog un o'r tai ei hun yn nodi y dylai ei eiddo gael ei nodi fel 'duty property' ac am ymuno gyda'r system carthffosiaeth. Y Clerc i gysylltu gyda'r swyddogion perthnasol i fewn Dwr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i nodi'r angen i newid dynodiad y ddau dy dan sylw.

Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod y ffordd drwy Lanafan ar gau adeg yr Etholiad diweddar, er bod y Cyngor Sir wedi gwneud trefniadau i'w chadw ar agor ond nid oedd gweithwyr yn Llanafan wedi derbyn y wybodaeth mewn da o bryd er mwyn i etholwyr fedru fynd i gynnig pleidlais mewn modd hwylus. Unwaith daeth gweithwyr y safle i ddeall y sefyllfa ar y diwrnod cyfeiriodd eu bod wedi gwneud pob ymdrech posibl er mwyn gwneud pethau'n hwylus i drigolion ar y diwrnod ac hefyd nodi pa mor ystyrlon mae'r gweithwyr drwy'r amser tuag at drigolion lleol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn danfon llythyr o werthfawrogiad i weithwyr y safle a'r contractwyr yn Llanafan.

Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddog Etholiadau, Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau trefniadau hwylus o ran cadw'r ffordd ar agor adeg y refferendwm ar y 23ain o Fai.

Bin Halen yng Nghnwch Coch

Nid yw'r bin halen wedi cael ei newid hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymchwilio pryd y disgwylir derbyn bin halen newydd.
Gweithred: Y Clerc.

Drain ger Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn.

Ni dderbyniwyd ymateb na gweithred i'r uchod. Teimlir fod y sefyllfa yn argyfyngus, y drain wedi bod yn hollol agored ers dros chwe mis. Dangoswyd pryder pe byddai plentyn bach neu unrhyw un arall yn cwmpo i mewn i'r drain byddai'n sefyllfa ddifrifol os nad angheuol. Y Clerc i erfyn yn gryf ar y Cyngor Sir i weithredu fel mater o frys mawr. Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Sir Ceredigion.

Ymgynghori ar amryw o newidiadau arfaethedig i'r terfynau cyflymder ar Ffordd Sirol yng Ngheredigion

Yn dilyn trafodaethau a'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod arbennig ar y 12fed o Ebrill ble y trafodwyd yr uchod derbyniwyd ymateb gan Swyddog o'r Cyngor Sir i'r hyn a nodwyd gan y Cyngor Bro wrth ystyried uchafswm cyflymder o 20 m.y.a. drwy bentref Llanfihangel-y-Creuddyn a nodir ei ymateb isod

Wrth ymyl Tŷ'r Ysgol – awgrymu ymestyn y cyfyngiadau i gornel uchaf y cae uwchben Y Grange;

Ymateb y Cyngor Sir:

Nid oedd swyddog y Cyngor Sir yn cytuno gyda'r uchod oherwydd nad oedd digon o le ar ymyl y ffordd i leoli polyn cyflymder.

Wrth ymyl Dolau Ceunant – ymestyn y cyfyngiadau ymhellach i lan y ffordd gan y teimlir fod awgrym y Cyngor Sir yn rhy agos i fynediad yr ysgol.

Ymateb y Cyngor Sir

Swyddog y Cyngor Sir yn anghytuno gyda'r awgrym yma, eto oherwydd nad oedd digon o le ar ymyl y ffordd i leoli polyn cyflymder ond hefyd teimlir pe dechreuir cyflymder ar ddarn o ffordd ble nad oedd tai wrth ymyl roedd i weld yn wrthgynhyrchiol oherwydd byddai gyrrwyr yn anwybyddu'r gorchymyn cyflymder.

I'r Gorllewin o Tanybryn – nodir fod y darn ble nodir y cyfyngiad yn ffordd ddi-ddosbarth ac felly y dylid nodi dechrau'r cyfyngiad ochr isaf i Gaeglas.

Ymateb y Cyngor Sir

Cyngor Sir wedi ail-edrych ac am ddiwygio ychydig ar y rhybudd i gyd-fynd gyda'r uchod.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd byddid yn fuddiol i wahodd Tom Delph-Janiurek i gyfarfod safle ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn i drafod yr awgrymiadau ac ei ymatebion.

Gweithred: Y Clerc i wneud trefniadau ar gyfer cyfarfod safle.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 27ain Mehefin, am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.